

Cyfarwyddyd Polisi ar y Loteri ar gyfer y Gronfa Loteri Fawr

Rhagarweiniad

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, wrth arfer ei bwerau o dan adran 36E(4)(a) o Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc 1993, ac ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Loteri Fawr ("y Gronfa") a chael caniatâd Ysgrifennwyd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn unol ag adran 36E(8) o'r Ddeddf honno, drwy hyn yn rhoi'r cyfarwyddyd a ganlyn i'r Gronfa:

1. Yn y Cyfarwyddiad hwn, wrth gyfeirio at adran, cyfeirir at un o'r adrannau yn Neddf y Loteri Genedlaethol etc 1993.

Cyfarwyddyd Cyffredinol

2. Wrth arfer unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant a ddatganolwyd i Gymru, bydd y Gronfa yn ystyried y materion a ganlyn wrth benderfynu i bwy y caiff y Gronfa roi grantiau neu fenthyciadau, at ba ddibenion y caiff y Gronfa roi grantiau neu fenthyciadau, y broses a ddefnyddir wrth benderfynu ar ba daliadau i'w gwneud ac o dan ba delerau ac amodau y bydd y Gronfa'n rhoi grantiau neu fenthyciadau:

A. Yr angen i sicrhau bod yr arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo lles y cyhoedd ac nad ydynt wedi'u bwriedu yn bennaf er mwyn gwneud elw preifat.

B. Yr angen i sicrhau bod yr arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) ar gyfer prosiectau sy'n gwella ansawdd bywyd cymunedau lleol mewn ffyrdd gwirioneddol a chynaliadwy.

C. Yr angen i annog arloesi, gan sicrhau ar yr un pryd bod unrhyw risg yn cael ei reoli mewn ffordd sy'n gymesur â'r math o brosiect ac â'r math o ymgeisydd.

D. Yr angen i hyrwyddo ac i gefnogi'r iaith Gymraeg ac i adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru, gan gynnwys gweithredu'r egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Dylid cyflwani hyn drwy gynnwys amodau penodol am ieithoedd yn y grantiau a thrwy fonitro a goruchwylio sut y mae'r rheini sy'n cael y grantiau yn cydymffurfio â'r amodau hynny.

E. Yr angen i hyrwyddo amcanion datblygu cynaliadwy.

F. Yr angen i bennu terfynau amser penodol o safbwynt am ba hyd y mae grantiau'n daladwy, ni waeth a ydynt ar gyfer gwariant cyfalaf neu ar gyfer gwariant refeniw.

G. Yr angen

i) ym mhob achos, i'r ymgeiswyr ddangos y bydd y prosiect yn ariannol hyfyw yn ystod cyfnod y grant

ii) os gwneir cais am arian cyfalaf:

a) am gynllun busnes clir sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer talu unrhyw gostau rhedeg a chostau cynnal a chadw sy'n gysylltiedig â phob prosiect am gyfnod rhesymol, gan ystyried maint a natur y prosiect

b) i sicrhau bod y broses werthuso a rheoli ar gyfer prosiectau mawr yr un peth â'r rheini a ddefnyddir ar gyfer Adolygiadau Gateway Swyddfa Masnach y Llywodraeth.

iii) mewn achosion eraill, i ystyried a oes cyllid arall yn debygol o fod ar gael i dalu unrhyw gostau parhaus am gyfnod rhesymol ar ôl cwblhau cyfnod dyfarniad y Loteri, gan ystyried maint a natur y prosiect, ac i ddefnyddio arian y Loteri i helpu i sicrhau hyfywedd ariannol lle bo modd.

H. Pa mor ddymunol fyddai gweithio gyda chyrrff eraill, gan gynnwys dosbarthwyr eraill, os yw'n ffordd effeithiol o gyflawni elfennau o'i strategaeth.

I. Yr angen i sicrhau bod ganddi'r wybodaeth angenrheidiol i benderfynu ar bob cais, gan gynnwys cyngor arbenigol annibynnol lle bo'i angen.

J. Yr angen i gael rhywfaint o gyllid a/neu gyfraniadau partneriaeth o ffynonellau eraill yn gymesur â gallu rhesymol mathau gwahanol o ymgeiswyr, neu ymgeiswyr mewn ardaloedd penodol i sicrhau cymorth o'r fath.

K. Yr angen i gynnwys amod ym mhob grant i gydnabod arian y Loteri gan ddefnyddio brand cyffredin y Loteri.

L. Yr angen i gynnwys y cyhoedd wrth ddatblygu polisiau, pennu blaenoriaethau a dyrannu grantiau.

M. Yr angen i fabwysiadu dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, a chydweithio'n agos â phartneriaid priodol i sicrhau'r patrwm buddsoddi gorau er lles cymunedau ledled Cymru. Lle y bo'n briodol, dylid defnyddio profiadau cyrff eraill er mwyn datblygu a gweithredu dulliau ariannu gwell.

Gwariant a Ddatganolwyd i Gymru

3. Wrth arfer unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant a ddatganolwyd i Gymru, bydd y Gronfa'n ystyried y materion canlynol wrth benderfynu i bwy y caiff y Gronfa roi grantiau neu fenthyciadau, at ba ddibenion y caiff y Gronfa roi grantiau neu fenthyciadau, y broses a ddefnyddir wrth benderfynu ar ba daliadau i'w gwneud ac o dan ba delerau ac amodau y bydd y Gronfa'n rhoi grantiau neu fenthyciadau.

A. Yr angen i sicrhau bod y Gronfa, gan ystyried ei asesiad o anghenion ac unrhyw dargedau y mae wedi'u pennu yn ei strategaeth, yn llwyddo i ddosbarthu arian dros gyfnod o amser i amrywiaeth cymharol eang o ymgeiswyr gan gynnwys cyrff bach, y cyrff hynny sy'n gweithio ar lefel leol yn unig, mentrau cymdeithasol, a chyrff sy'n gweithio dramor ond y mae eu prif swyddfa yng Nghymru.

B. Yr angen i sicrhau bod y Gronfa'n llwyddo i ddosbarthu arian dros gyfnod o amser yn gyfartal rhwng y gwariant ar y canlynol neu'n gysylltiedig â'r canlynol:

- i) hyrwyddo dysgu cymunedol
- ii) hyrwyddo diogelwch a chydlyniant cymunedol
- iii) hyrwyddo lles corfforol a meddyliol.

C. Yr angen i ystyried buddiannau Cymru gyfan, buddiannau gwahanol rannau o Gymru, maint cymharol y poblogaethau a'r cwmpas ar gyfer lleihau amddifadedd economaidd a chymdeithasol yng ngwahanol rannau o Gymru, a'r angen i annog cyrff gwasanaethau cyhoeddus i gydweithredu er mwyn darparu gwasanaethau gwell i ddinasyddion.

4. O ran y gwariant a ddatganolwyd i Gymru, bydd y Gronfa'n ystyried yr angen i ddosbarthu arian o dan adran 25(1) i brosiectau sy'n anelu at gyflawni un neu fwy o'r canlyniadau canlynol:

A. pobl o bob oed yn meddu ar y sgiliau a'r dysg i wynebu sialensiau cymdeithas fodern

B. pobl yn cydweithio i greu cymunedau cryfach, cyfiawnder cymdeithasol ac amgylchedd wledig a threfol gwell

C. pobl a chymunedau mwy iach sy'n gwneud mwy o weithgareddau corfforol.

5. O ran y gwariant a ddatganolwyd i Gymru, bydd y Gronfa, wrth ddosbarthu arian o dan adran 25(1), yn ystyried yr angen i gyflawni un neu fwy o'r blaenoriaethau canlynol:

A. mynd i'r afael â'r rhwystrau rhag dysgu yn y gymuned a meithrin sgiliau bywyd effeithiol

B. galluogi plant a phobl ifanc i gyrraedd eu potensial llawn

C. grymuso cymunedau i ddatblygu a gweithredu rhaglenni adfywio lleol

D. datblygu ymatebion adeiladol yn y gymuned i ddadrithiad, ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu

E. galluogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol a chyfrannu at eu cymunedau

F. galluogi cymunedau i reoli a gwella eu hamgylchedd a'u hamwynderau lleol

G. datblygu gallu pobl i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u lles eu hunain yn unol ag egwyddorion Her Iechyd Cymru, ac annog unigolion a chyrff i wella iechyd yng Nghymru;

H. hyrwyddo bwyta'n iach a chynyddu gweithgarwch corfforol ymysg pobl o bob oed, rhyw a grŵp cymdeithasol;

I. datblygu dulliau gweithredu newydd ar gyfer hyrwyddo iechyd meddwl a lles.